



Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Newidiadau i drefniadau llywodraethu
gweithredol prif gynghorau

Gorffennaf 2020

Cynnwys

1. Cyflwyniad.....	4
2. Methodoleg.....	4
3. Trosolwg o'r Ymatebion.....	5
4. Crynodeb o'r Ymatebion i Gwestiynau Penodol yn yr Ymgynghoriad.....	6
5. Y Camau Nesaf.....	12

Atodiad 1 - Rhestr o Ymatebwyr

1.0 Cyflwyniad

1.1 Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad i ofyn am farn ar ddiwygiadau arfaethedig i Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 rhwng 5 Rhagfyr 2019 a 27 Chwefror 2020. Byddai'r cynigion hyn yn golygu y gellid newid trefniadau llywodraethu gweithredol prif gynghorau. Mae'r ddogfen hon yn crynhoi themâu allweddol yr ymatebion a gafwyd.

1.2 Mewn datganiad ysgrifenedig ar 5 Rhagfyr 2019, nododd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ddiben bwriadedig y diwygiadau, a fyddai'n ceisio atal tarfu diangen a achosir gan yr amserlen gyfredol a nodir mewn deddfwriaeth. Byddai'r newidiadau hefyd yn ceisio osgoi'r posibilrwydd o newidiadau'n codi'n rhy aml drwy sicrhau na ellir gwneud unrhyw newidiadau pellach iddynt nes bydd dau gylch etholiadol llawn wedi pasio. Ceisiwyd barn am faterion cysylltiedig hefyd, megis caniatáu e-ddeisebau, hysbysiadau ar-lein ar gyfer deisebau ac a ddylid diwygio'r trothwy sy'n ofynnol ar gyfer llofnodion ar ddeiseb faerol er mwyn sbarduno refferendwm.

2.0 Methodoleg

2.1 Roedd y ddogfen ymgynghori ysgrifenedig yn cynnwys saith cwestiwn am amrywiaeth o feysydd allweddol i bennu pa mor dderbyniol a phriodol fyddai'r newidiadau a awgrymwyd mewn perthynas â'u bwriad a'u manylion.

2.2 Cafwyd cyfanswm o naw ymateb i'r ymgynghoriad ysgrifenedig ffurfiol.

3.0 Trosolwg o'r ymatebion

3.1 Cafwyd naw ymateb llawn i'r ymgynghoriad ysgrifenedig, yn bennaf gan Gyngorau Sir a Chyngorau Bwrdeistref neu grwpiau cysylltiedig. Roedd yr holl ymatebion a gafwyd o Gymru.

Crynodeb o'r ymatebion

3.2 Roedd yr holl ymatebion yn cytuno'n gyffredinol â'r dulliau a nodwyd ar gyfer amseru refferenda a deisebau o ran newid trefniadau gweithredol.

Ar y cyfan, roedd yr ymatebion yn adlewyrchu'r pwyntiau canlynol:

- Cafodd y dyddiad terfyn arfaethedig ar gyfer deisebau, penderfyniadau, cyfarwyddiadau a gorchmynion ei ganmol ar y cyfan;
- Roedd 100% o'r ymatebwyr yn cefnogi'r cynnig i gynnal unrhyw newid am o leiaf ddau gylch etholiadol;
- Roedd yr ymatebwyr mwy neu lai wedi'u rhannu o ran sut y dylid newid y trothwy ar gyfer deiseb i wneud newid i'r trefniadau gweithredol;
- Nododd sawl ymatebwr fod cyhoeddi hysbysiadau mewn papurau newydd yn rhywbeth y gellid ei newid yn y dyfodol.

4.0 Crynodeb o'r Ymatebion i Gwestiynau Penodol yn yr Ymgynghoriad

Cwestiwn 1 -

1. Cyfyngu'r cyfnod amser ar gyfer cyflwyno cynigion i newid trefniadau llywodraethu gweithredol

- a. Ydych chi'n cytuno y dylai deisebau, penderfyniadau, cyfarwyddiadau a gorchmynion am newid trefniadau llywodraethu gweithredol i gyd fod yn ddarostyngedig i derfyn amser?
- b. Os ydych chi, ydych chi'n cytuno y dylai'r terfyn amser gael ei osod ar ddeunaw mis cyn y set nesaf o etholiadau lleol, gan alluogi unrhyw refferendwm i gael ei gynnal cyn yr etholiadau cyffredin nesaf?
- c. Os ydych chi wedi ateb 'nac ydw' i'r naill neu'r llall o'r cwestiynau hyn, pam hynny?
Rhowch fanylion

4.1 Roedd cytundeb cyffredinol o blaid y dyddiad terfyn a awgrymwyd ar gyfer deisebau, penderfyniadau, cyfarwyddiadau a gorchmynion gydag 89% o'r ymatebwyr yn cytuno.

4.2 Roedd rhai o'r ymatebwyr yn bryderus am gymhlethdodau posibl cynnal refferendwm ar y cyd ag etholiad. Mae'n bwysig nodi y byddai'r newidiadau hyn yn golygu y byddai angen cynnal refferendwm chwe mis cyn yr etholiad, gan osgoi cymhlethdodau dilynol.

4.3 Roedd y sylwadau yn cynnwys:

- “Mae'r rheolau ar gyfer newid trefniadau llywodraethu gweithredol wedi'u nodi'n glir yn y pwerau presennol ac nid yw'n ymddangos bod y cynnig uchod yn ychwanegu dim at y rhain. Nid yw'r achos dros newid wedi'i wneud, yn wir, mae bron yn ymddangos ei fod yn newid er mwyn newid.”
- “Gallwn weld budd cael cyfnod amser o 18 mis cyn y set nesaf o etholiadau lleol ac, mewn blwyddyn lle trefnwyd un etholiad, manteision cyfuno'r refferendwm neu'r etholiad am Faer (os mai dyna oedd canlyniad y refferendwm). Fodd bynnag, mae gennym bryderon am gymhlethdod gweinyddu etholiad(au) a refferendwm cyfun ar yr un diwrnod mewn blwyddyn pan fo etholiadau cyfun eisoes wedi'u trefnu ac mae angen ystyried y gallai beri dryswch i bleidleiswyr, yn enwedig gyda nifer y papurau pleidleisio, y dulliau pleidleisio gwahanol ar gyfer pob pleidlais a gwahaniaethau posibl mewn etholfraint.”

Cwestiwn 2

2. Newid trefniadau llywodraethu

- a. Ydych chi'n cytuno, lle mae trefniadau llywodraethu gweithredol prif gyngor wedi cael eu newid, fod rhaid i'r prif gyngor gadw at y trefniadau hynny am ddau gylch etholiadol llawn?
- b. Os nad ydych chi, pam ddim? Rhwch fanylion

4.4 Roedd yr holl ymatebwyr yn cytuno y dylai unrhyw newidiadau i drefniadau gweithredol gael eu cynnal am ddau gylch etholiadol llawn.

4.5 Roedd y sylwadau yn cynnwys:

- “Er yr hoffwn ddweud na, gallai hyn wneud i'r rhai sy'n cefnogi'r trefniant amgen chwarae ping pong â'r broses. Fodd bynnag, a fydddech yn ystyried galluogi gweinidogion i ymyrryd os gallai'r Awdurdod Lleol ddangos nad oedd y trefniadau newydd yn gweithio?”

Cwestiwn 3

3. Deisebau electronig

- a. Ydych chi'n cytuno y dylai deddfwriaeth gael ei diwygio i'w gwneud yn ofynnol i brif gynghorau dderbyn deisebau mewn ffurf electronig?
- b. Ydych chi hefyd yn cytuno y dylai'r hysbysiad o refferendwm gael ei gyhoeddi ar wefan prif gyngor, yn ogystal â'i gyhoeddi mewn papur newydd?
- c. Ydych chi'n fodlon â'r darpariaethau dwyieithog presennol ar gyfer deisebau?
- d. Os nad ydych chi, pam ddim? Rhwch fanylion

4.6 Cytunodd yr holl ymatebwyr y dylid derbyn deisebau mewn ffurf electronig. Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y dylai'r ddeddfwriaeth ganiatáu i brif gynghorau eu derbyn, yn hytrach na bod hyn yn ofynnol. Awgrymodd un ymatebwr y dylid caniatáu i brif gynghorau godi ffioedd i ddatblygu'r adnoddau sydd eu hangen.

4.7 Er bod yr holl ymatebwyr yn cytuno y dylid cyhoeddi hysbysiad o refferendwm ar wefan prif gyngor, roedd rhai yn anghytuno y dylai hyn fod yn ogystal â chyhoeddiad mewn papur newydd.

4.8 Ni chodwyd unrhyw bryderon mewn perthynas â'r darpariaethau dwyieithog presennol ar gyfer deisebau.

4.9 Roedd y sylwadau yn cynnwys:

- “Byddai rhoi cyhoeddiad ar wefan Prif Gyngor ynghyd ag ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol yn cyrraedd mwy o bobl a byddai'n cael gwared ar y gost o gyhoeddi mewn papur newydd sy'n ffordd hen ffasiwn a chostus o hysbysu'r cyhoedd ym marn Cyngor Bro Morgannwg. Fel cymhariaeth, dim ond ar wefan Prif Gyngor y caiff hysbysiadau ar gyfer etholiadau lleol eu cyhoeddi a chânt eu harddangos yn swyddfeydd y Cyngor.”
- “Mewn perthynas â chwestiwn (a), rydym yn cytuno y dylid diwygio'r ddeddfwriaeth er mwyn gallu derbyn deisebau mewn ffurf electronig. Fodd bynnag, dylai'r cyngor allu dewis pa ddull derbyn i'w ddefnyddio oherwydd mae'n bosibl y bydd amgylchiadau pan na fyddai cyflwyno'n electronig yn briodol. Byddai angen i'r ffurf electronig gynnwys yr holl wybodaeth ofynnol, yr un fath â'r ffurf ysgrifenedig bresennol.”
- “Mewn perthynas â chwestiwn (b), rydym yn cefnogi'r cynnig i hysbysiad o refferendwm gael ei gyhoeddi ar wefan y prif gyngor a byddem hefyd yn awgrymu eich bod yn cynnwys ei gyhoeddi ar hysbysfwrdd cyhoeddus y Cyngor. Fodd bynnag, rydym yn cwestiynu manteision cyhoeddi hysbysiadau mewn papurau newydd y dyddiau hyn, yn enwedig pan nad yw papurau newydd lleol ar gael mewn rhai ardaloedd mwyach ac yn hen ffasiwn.”
- “Bydd angen inni ddatblygu adnoddau i fodloni'r gofyniad hwn. Dylai cynghorau allu codi ffioedd i ddatblygu adnoddau ychwanegol.”
- “Dylai'r awdurdod lleol benderfynu ar ba ffurf y mae'n dymuno derbyn y ddeiseb. Nid ydym yn credu bod angen arddangos hysbysiadau o'r fath mewn papurau newydd gan fod cylchrediad papurau newydd lleol yn lleihau ac mae'r cyhoedd yn tueddu i edrych ar wefannau ar gyfer gwybodaeth statudol erbyn hyn.”

Cwestiwn 4

4. Nifer yr etholwyr sy'n ofynnol i sbarduno refferendwm

Yn Lloegr, 5% o etholwyr cofrestredig prif gynghorau sy'n gorfod llofnodi deiseb i sbarduno refferendwm am newid i'r trefniadau llywodraethu gweithredol. Yng Nghymru, rhaid cael 10% o etholwyr cofrestredig er mwyn sbarduno refferendwm.

Ydych chi'n credu bod angen newid y trothwy ar gyfer sbarduno refferendwm?

Ydw

Nac ydw

Os hoffech chi fynegi unrhyw farn am hyn, rhowch fanylion:

4.10 Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr, 67%, yn credu y dylai'r trothwy fod ar ei werth cyfredol, sef 10% (pum ymatebwr), neu'n uwch (un ymatebwr). Roedd tri ymatebwr yn credu y dylid gostwng y trothwy i 5% er mwyn bod yn gyson â

Lloegr.

4.11 Mater arall a godwyd yw y dylai'r dyddiad y gosodir y trothwy gyd-fynd â newidiadau diweddar mewn deddfwriaeth.

4.12 Roedd y sylwadau yn cynnwys:

- “Mae newid trefniadau gweithredol yn gam eithaf arwyddocaol i ddemocratiaeth leol ac, yn unol â hynny, dylai ennyn cefnogaeth leol. Yn hyn o beth, dylai'r trothwy o 10% gael ei gynnal fel lleiafswm. Mae'n siomedig nad ydych yn ceisio barn am drothwy uwch”
- “O ystyried nifer yr etholwyr mewn rhai Awdurdodau Lleol, ac arwyddocâd y penderfyniad i newid trefniadau llywodraethu gweithredol (y cynigir y byddant ar waith am 2 gylch etholiadol), ystyrir bod y gofyniad i gael o leiaf 10% o'r etholwyr er mwyn i'r Awdurdod Lleol sbarduno refferendwm yn briodol.”
- “dylid gostwng y trothwy i 5% fel Lloegr.”
- “Ydw, dylid newid y trothwy er mwyn cael cysondeb yng Nghymru a Lloegr. Ar yr un pryd, rydym hefyd yn argymhell y dylid adolygu dyddiad y gofrestr y mae'r cyfrifiad yn seiliedig arni. Mae'r 10% o etholwyr cofrestredig yn seiliedig ar y ffaith bod y gofrestr etholwyr mewn grym ar 15 Chwefror bob blwyddyn (Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Refferenda) (Deisebau a Chyfarwyddiadau) (Cymru) 2001) – pan ddaeth y rheoliadau hyn i rym, cyhoeddwyd y gofrestr etholwyr ddiwygiedig ar 15 Chwefror bob blwyddyn. Yn dilyn newidiadau mewn deddfwriaeth, mae'r gofrestr ddiwygiedig bellach yn cael ei chyhoeddi erbyn 1 Rhagfyr bob blwyddyn (neu erbyn 1 Chwefror pan fo etholiad wedi'i gynnal yn ystod y canfasiad). Byddai felly'n gwneud synnwyr defnyddio dyddiad diwygiad blynyddol y gofrestr ar gyfer y cyfrifiad yn lle hyn.”
- “Dylai'r trothwy fod yr un peth yng Nghymru a Lloegr. Dylai fod trothwy o 10% yng Nghymru.”

Cwestiwn 5 a 6

Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut rydych chi'n credu y gall y polisi arfaethedig ar gynigion i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol sy'n galluogi prif gynghorau i newid trefniadau llywodraethu gweithredol gael ei lunio neu ei addasu er mwyn cael effeithiau positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

4.13 Nid oedd 89% o'r ymatebwyr yn rhagweld y byddai unrhyw effaith neu nid oeddent yn teimlo eu bod mewn sefyllfa i wneud sylw. Cododd un ymatebwr bwynt cyffredinol gan ddweud y dylai'r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) ehangach gyfeirio at y gofyniad i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg fel y'u nodwyd ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

4.14 Ymhlith y sylwadau eraill a gafwyd roedd:

- “Ni ragwelir y byddai unrhyw effaith.”
- “Nid wyf yn credu y byddai llawer o effaith.”
- “Nid yw'n ymddangos bod y cynnig yn effeithio ar yr iaith.”
- “Nid ydym yn rhagweld unrhyw effaith ar y Gymraeg.”
- “Mae'n ofynnol i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, ac felly mae dyletswydd statudol ar bob un ohonynt i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cynnig yn rhagweithiol drwy gyfrwng y Gymraeg, a sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg yn cael yr un sylw a'u bod ar gael yn rhwydd ac yn gyson. Felly dylai'r ddeddfwriaeth sylfaenol ar gyfer y Bil hefyd gyfeirio at y gofyniad hwn, er mwyn diogelu cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r Gymraeg, ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.”

Cwestiwn 7

7. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny:

4.15 Cafwyd sawl sylw gan yr ymatebwyr; roedd rhai yn berthnasol i gwestiynau blaenorol ac maent wedi cael eu hymgorffori'n briodol.

4.16 Nododd un ymatebwr y pwysau ar amserlen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru a chwestiynodd pa mor angenrheidiol oedd y newidiadau arfaethedig. Cwestiynodd hefyd pam nad oedd y cynigion wedi'u cyflwyno'n gynharach.

4.17 Awgrymodd ymatebwr arall os bydd refferendwm yn methu na ddylid cynnal refferendwm arall am weddill y tymor presennol a'r tymor canlynol o 5 mlynedd.

4.18 Sylwadau a wnaed:

- “Mae rhai materion cyffredinol nad ydynt wedi'u cwmpasu mewn atebion posibl i'r cwestiynau a godwyd. Yn gyntaf, rydym yn cael gwybod am y pwysau ar raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â materion pwysicach eraill, felly ydy hyn yn rhywbeth sy'n mynd ag amser pan fo deddfwriaeth berthnasol eisoes yn cwmpasu trefniadau llywodraethu gweithredol? Ychydig o effaith y mae'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn ei chael ar y rhain heblaw am leihau'r cyfnod cyn y dyddiad terfyn. A oes tystiolaeth glir nad yw'r system bresennol yn gweithio? Yn wir, a oes unrhyw awdurdod wedi cynnal refferendwm i bennu newid i drefniadau llywodraethu gweithredol? Yn ail, os yw mor angenrheidiol adolygu trefniadau llywodraethu gweithredol, pam nad oedd hyn wedi'i gynnwys ym Mil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru)?”
- “Byddem yn cwestiynu a oes angen cyhoeddi hysbysiad o refferendwm mewn papur newydd yn ogystal ag ar wefan y cyngor. Mae gan gynghorau amrywiaeth o ddulliau ar gyfer cyfathrebu ac ymgysylltu â'r cyhoedd a theimlir nad hysbysiad mewn papur newydd yw'r dull gorau o gyfathrebu a gall fod yn gostus.”
- “Os bydd refferendwm yn methu â sicrhau newid mewn trefniadau llywodraethu, yna dylid gosod terfyn amser ar alw refferendwm pellach am weddill y tymor 5 mlynedd hwnnw, ynghyd â'r tymor 5 mlynedd nesaf.”

5. Y Camau Nesaf

- 5.1.** Mae Llywodraeth Cymru wedi dadansoddi ac ystyried yr holl ymatebion a byddwn yn eu defnyddio er mwyn datblygu'r newidiadau a awgrymwyd i drefniadau gweithredol ymhellach.
- 5.2.** Ers cyhoeddi'r ymgynghoriad mae amgylchiadau Llywodraeth Cymru o ran ei hamserlen ddeddfwriaethol a'i blaenoriaethau wedi newid o ganlyniad i bandemig y coronafeirws newydd (COVID-19).
- 5.3.** Ar 23 Ebrill 2020, ar ôl y ddadl ar yr egwyddorion cyffredinol ar gyfer Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru), ysgrifennodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i ofyn am atal cam 2 i graffu ar y bil dros dro.
- 5.4.** O ganlyniad i'r cyfyngiadau tebygol ar y bil a'r rhaglen ddeddfwriaethol ar hyn o bryd, ni fydd y darpariaethau a gynigir yn yr ymgynghoriad yn cael eu cyflwyno fel rhan o Fil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru).
- 5.5.** Bydd swyddogion nawr yn ystyried y ffordd orau o fwrw ymlaen â dulliau amgen a byddant yn ymgysylltu â rhanddeiliaid ar y cynigion hyn eto.
- 5.6.** Caiff y canlyniadau a'r dadansoddiad o'r ymgynghoriad hwn eu hystyried fel rhan o'r datblygiad hwnnw.

Atodiad 1

Rhestr o ymatebwyr

Enw	Sefydliad
Y Cyngorydd Richard Clark	Grŵp Llafur Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
	Cyngor Bro Morgannwg
Caroline Evans	
Rhys George/Angela Holden	Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol (AEA)
	Cyngor Sir Ddinbych
Tracey Meredith	Cyngor Dinas a Sir Abertawe
Lynn Ball	Cyngor Sir Ynys Môn
Eifion Evans	Cyngor Sir Ceredigion
Glynne Morgan	Cyngor Sir Penfro